| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Gorffennaf 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant/Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Arbenigol a'r Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr** |
| **Teitl:** | **Materion Gofal Cymdeithasol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar:

1.1 Darpariaethau bwriedig sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn ymwneud â diogelu oedolion diamddiffyn.

1.2 Systemau Sicrhau Ansawdd mewn perthynas â chyflenwi Gofal Cartref ac ymweliadau gan Aelodau Etholedig i wasanaethau mewnol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd Aelodau am ddiweddariad ar y meysydd gwaith hyn yn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Mawrth 2013.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai Aelodau ystyried yr adroddiad ac:

3.1 Argymell fod y Cabinet yn cytuno i newid y trefniadau presennol ar gyfer diogelu oedolion, yn unol â phob partner ar draws Gogledd Cymru, i'r dewis a ffafrir o gael Bwrdd Diogelu Oedolion Dwy Haen i Ogledd Cymru. Mae'r gwerthusiad opsiynau ynghlwm yn Atodiad 1.

3.2 Gwneud sylwadau ar y Systemau Sicrhau Ansawdd sydd yn eu lle ar gyfer gwasanaethau gofal.

## 4. Manylion am yr adroddiad

<u>Diogelu</u>

4.1 Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn rhoi gofyniad ar bartneriaid i ddatblygu'r trefniadau diogelu oedolion presennol i greu rhaglen ddiogelu oedolion yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol. Ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru mae trefniant rhwydwaith i rannu gwybodaeth a rhoi cymorth cyfoedion a'r farn sy'n amlygu ei hun yw bod angen symud y rhaglen ddiogelu oedolion i greu fframwaith ranbarthol gadarn.

4.2 Yn lleol, mae gan Sir Ddinbych Bwyllgor Diogelu Oedolion sy'n cynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, grwpiau iechyd, y 3ydd sector a'r sector annibynnol. Maent yn cydweithio i herio a mynd i'r afael â chamdriniaeth a hyrwyddo hawliau oedolion

diamddiffyn. Mae ganddynt swyddogaeth monitro ansawdd ac maent yn adolygu arferion a threfnau yn rheolaidd, gan gynnwys adborth o adroddiadau (e.e. Adolygiadau Achosion Difrifol), er mwyn gwella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer unigolion.

4.3 Mae Rhan 7 y Bil sy'n ymwneud â diogelu yn nodi'n glir beth yw'r gofynion ar gyfer y Byrddau Diogelu Oedolion a gaiff eu datblygu ac yn amlinellu'r amcanion canlynol:

a) Diogelu oedolion yn ei ardal, sydd:
   - Gydag anghenion gofal a chymorth (a yw'r awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio), ac
   - Yn profi, neu sydd mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeuluso, ac

b) Atal oedolion yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeuluso.

4.4 Bydd rheoliadau statudol ar y Byrddau Diogelu Oedolion yn amlinellu'r ardaloedd yng Nghymru lle bydd byrddau diogelu (a fydd yn cael eu galw'n ardaloedd byrddau diogelu). Mae trafodaethau yn ystod yr ymgynghoriad wedi arwain at y dealltwriaeth y bydd Gogledd Cymru yn parhau i fod yn un rhanbarth.

4.5 Opsiwn a Ffafrir

Mae pedwar opsiwn wedi'u hystyried fel modelau ar gyfer Gogledd Cymru a'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw Opsiwn 4 – Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru gyda dwy haen. Mae'r opsiwn hwn yn galluogi Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i gydweithio mewn parau i ddatblygu tri Bwrdd Diogelu Oedolion gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o fodel presennol Gwynedd ac Ynys Môn. Y bwriad yw fod Sir Ddinbych yn gweithio gyda Chonwy. Fodd bynnag, mae elfennau o ddiogelu oedolion y gellid ystyried eu cyflawni'n rhanbarthol, er enghraifft hyfforddiant, perfformiad ac archwilio, polisi ac adolygiadau achosion difrifol.

Byddai'r strwythur hwn yn cynnig cydbwysedd rhwng gweithio rhanbarthol a gallu gweithio yn effeithiol ar draws ffiniau tra'n parhau i gynnal cyswllt lleol.

4.5.1 Gwendidau

- Dryswch posibl dros atebolrwydd rhwng y rhanbarth a'r is-ranbarth
- Sicrhau cynrychiolaeth ar y lefel cywir ar gyfer elfennau rhanbarthol ac is-ranbarthol
- Angen arweinyddiaeth gryf ar bob lefel
- Effaith bosibl ar allu uwch reolwyr yr holl asiantaethau – gorfod mynd i fwy o gyfarfodydd nac o'r blaen

4.5.2 Cryfderau

- Mae'r gwasanaethau plant yn arbrofi â'r model a gellir trosglwyddo'r gwersi a ddysgir
- Llai o ddyblygu
- Mae'n caniatáu arloesi
- Yn cynnig y posibilrwydd o ostwng y galwadau ar adnoddau – pobl ac ariannol
- Mae Gwynedd ac Ynys Môn eisoes wedi dechrau ar y daith o sefydlu bwrdd ar y cyd ac mae'r gwersi a ddysgir o hyn ar gael

4.6 Mae'r opsiwn dwy haen hwn yn cael ei ffafrio oherwydd:

- Mae'r model hwn yn caniatáu datblygu strwythurau mewn ffyrdd sy'n taro cydbwysedd derbyniol, wedi'i reoli'n dda rhwng rhaglenni lleol a rhanbarthol
- Mae'n cynnal y gallu i fod yn ymatebol i faterion ac arferion lleol

- Gallai elfennau diogelu oedolion rhanbarthol greu proffil uwch a chynyddu dylanwad Bwrdd Gogledd Cymru yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Byddai'r model hwn yn haws i'w reoli ar gyfer sefydliadau Gogledd Cymru gyfan
- Mae'n cryfhau'r rhaglen o weithio ar y cyd yng Ngogledd Cymru
- Bydd cael yr un model ar gyfer byrddau diogelu oedolion a phlant yn dod â chyfartaledd i ddiogelu oedolion a phlant
- Dros amser, gallai'r model hwn ddod â'r cyfle o gyfuno rhai meysydd cyffredin o ran arferion diogelu ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion
- Gall y model hwn hefyd greu'r cyfle am gefnogaeth busnes integredig fel sail i ddiogelu plant ac oedolion ar draws Gogledd Cymru.
- Yn bwysicaf oll, mae'r model hwn yn ein caniatáu i ddatblygu arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd â gwella canlyniadau i oedolion diamddiffyn drwy gynyddu'r gallu i rannu gwersi ac arloesi yn ogystal â sicrhau safon cyffredin o ymateb i ddinasyddion ar draws Gogledd Cymru.

<u>Monitro Gofal Cartref</u>

4.7 Fel y bydd Aelodau'n cofio o'r adroddiad ar fonitro gwasanaethau gofal annibynnol ym mis Ionawr, mae'r Cyngor yn monitro ansawdd gwasanaethau gofal cartref mewn sawl ffordd. Mae'r rhain yn cynnwys adborth o weithgarwch adolygu y timau gwaith cymdeithasol, ymweliadau contract gyda darparwyr, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ac adborth gan AGGCC a Sefydliadau 3ydd Sector sy'n gweithio gydag unigolion a gofalwyr. Mae datblygu contract rhanbarthol a Rhestr o Ddarparwyr Cymeradwy wedi cefnogi'r gwaith hwn.

4.8 Yn rhanbarthol, mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu fframwaith fonitro y gall pob Awdurdod Lleol ei ddefnyddio. Yn y cyfamser, mae Sir Ddinbych wedi datblygu ei phroses ei hun, sy'n cyd-fynd ar y cyfan â'r gwaith Rhanbarthol (gweler Atodiad 2 i gael manylion y broses hon). Datblygwyd y fframwaith i ymateb i'r gofyniad i Gyngor Sir Ddinbych sicrhau fod gwasanaethau yn cyfateb â'r canlyniadau a ddynodir ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, sicrhau cydymffurfiad gyda'r Safonau Isafswm Cenedlaethol a Chytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru a'i fanylebau. Nod y fframwaith fonitro hefyd yw cydnabod arfer da a sicrhau fod risg a pherfformiad yn cael eu rheoli'n briodol mewn partneriaeth â Darparwyr a chomisiynwyr, sydd i gyd yn rhannu'r un gwerthoedd drwy ymrwymo i gyflawni'r ansawdd a'r gwerth gorau posibl o ddarpariaeth gwasanaeth.

4.9 I brofi'r broses, defnyddiwyd y fframwaith hon ar gyfer un digwyddiad monitro prawf. Gadawyd holiadur a bydd rhai'n cael eu postio i weithwyr gofal. Byddwn hefyd yn anfon holiaduron at rai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a byddwn yn holi cwestiynau i eraill dros y ffôn. Yn ystod y sgwrs hon, os mynegir unrhyw bryderon, bydd gwiriadau dirybudd yn cael eu cynnig a'u trefnu fel sy'n briodol. Mae'r digwyddiad arbrawf cyntaf hwn wedi'i gyflawni gyda darparwr mawr sy'n hanesyddol wedi bod yn flaenllaw o ran dulliau gweithio newydd a gwell. Mae gweithio gyda nhw wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn profi, datblygu a diwygio'r broses. Mae'r darparwr penodol hwn, er enghraifft, yn cyflawni ei wiriadau dirybudd ei hun, mewn cytundeb â'r defnyddiwr gwasanaeth, i sicrhau bod gofal yn cael ei gynnig ar amser ac yn briodol.

4.10 Y cam nesaf fydd cyflwyno'r broses hon i bob darparwr gofal cartref. Er mwyn paratoi, anfonwyd holiaduron hunanasesu i oddeutu 20 darparwr, er nad yw ymatebion a dderbyniwyd hyd yn hyn wedi nodi unrhyw feysydd pryder, nid ydym yn dibynnu ar y wybodaeth hon yn unig. Gwiriwyd adroddiadau AGGCC ar y cyd â'r hunanasesiadau hyn fel y mae ffurflenni adborth a gwblhawyd gan staff sy'n cynnal yr adolygiadau. Bydd yr holl wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i hysbysu'r ymateb i fonitro contractau.

4.11 Nid oes unrhyw ddigwyddiad monitro blynyddol yn ddigonol i sicrhau gwasanaethau o ansawdd. Mae'n hanfodol fod monitro cyson a pharhaus yn digwydd. Yn Sir Ddinbych, mae'r gwaith parhaus hwn yn cael ei wneud gan Swyddogion Gofal yn y Gymuned (SGG) sy'n cynnal yr adolygiadau gofal. Maent yn llenwi ffurflenni adborth i roi gwybod i'r Tîm Contractau am arfer da a gwael. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd y tîm SGG yn ymuno â'r Tîm Contractau i wella cyfathrebu a gwaith ar y cyd ymhellach a chynyddu ansawdd.

4.12 Mynegwyd pryderon am y posibilrwydd y bydd gofalwyr yn teimlo na allant gwyno. Gallai hyn fod ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r person maent yn gofalu amdano a lefel y gwasanaethau a ddarperir ac a yw'r rheiny yn diwallu eu hanghenion eu hunain. Penderfynwyd cynyddu rôl yr Aseswyr Gofalwyr, gan gynyddu'r gwaith a gomisiynwyd gyda NEWCIS i ganiatáu rhagor o waith parhaus gyda Gofalwyr. Gyda chaniatâd y Gofalwr a'r Defnyddiwr Gwasanaeth, bydd y deilydd y swydd hon hefyd yn gallu cynnal gwiriadau dirybudd lle bo hynny'n briodol i fonitro ansawdd darpariaeth gwasanaeth.

4.13 Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r mater o ddefnyddio gwiriadau dirybudd yn fwy eang nac yn 4.11 uchod a barn yr Adran, yn seiliedig ar nifer o ystyriaethau moesegol ac ymarferol, gan gynnwys ymchwil o'r modd y mae Sir y Fflint wedi rheoli eu proses, yn ogystal ag adborth gan Aelodau Etholedig a Sefydliadau 3ydd Sector ar lefel y pryder, yw na ddylem fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os yw gwaith a wneir gan NEWCIS yn dangos bod pryder eang ynglŷn ag ansawdd, bydd y mater hwn yn cael ei ailystyried.

Ymweliadau gan Aelodau

4.14 Rhwng mis Ionawr 2013 a mis Ebrill 2013 adolygwyd adroddiad ar ymweliadau â Darparwr Mewnol a'i addasu i ddiwallu'r gofynion ar gyfer sefydliadau Mewnol a chynlluniau Byw yn y Gymuned. Digwyddodd yr ymweliad cyntaf dan y dull hwn gyda Chynllun Byw i'r Anabl. Dangosodd yr adborth positif fod trigolion yn cael eu trin gydag urddas a pharch, yn byw mewn amgylchedd diogel a sicr, gyda dodrefn a ffitiadau o safon uchel yn y cartref.

4.15 Trefnwyd tri o ymweliadau pellach ar gyfer mis Gorffennaf. Trefnir gweddill yr ymweliadau o fis Medi ymlaen drwy drafodaeth gydag Aelodau Etholedig perthnasol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r ddau faes gwaith hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y flaenoriaeth gorfforaeth o ddiogelu pobl ddiamddiffyn a'u galluogi i barhau i fyw'n annibynnol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Diogelu

Bydd y model hwn yn cael ei ddatblygu i ddechrau gan ddefnyddio gallu rhanbarthol. Gwnaed cais i'r Gronfa Waith ar y Cyd Rhanbarthol sy'n cynnwys swydd rheoli prosiect i gefnogi'r datblygiad hwn. Os bydd y cais yn llwyddo, bydd yr arian hwn ar gael am 3 blynedd fodd bynnag, mae'r model a ffafrir yn cynnig y cyfle i gyfuno rhai meysydd cyffredin o arfer diogelu ar draws gwasanaethau plant ac oedolion sydd â'r posibilrwydd o arwain at swyddogaeth cefnogi busnes integredig fel sail i ddiogelu plant ac oedolion ar draws Gogledd Cymru.

6.2 Monitro Gofal Cartref

Mae'r broses yn cael ei gweithredu gan ddefnyddio adnoddau staffio presennol a drwy gyfuno'r Tîm Contractau ac Adolygu. Mae Tîm Contractau Sir Ddinbych yn eithriadol o fach o ran nifer ac mae'n bosibl y bydd y lefelau staffio presennol yn annigonol i ddarparu monitro o'r ansawdd sydd angen. Bydd hyn yn cael ei adolygu wedi i'r newidiadau gael eu gweithredu'n llawn ac i'r monitro gael ei werthuso.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Casgliad yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (ynghlwm yn Atodiad 3) ar gyfer y Bwrdd Diogelu oedd y byddai effaith gadarnhaol drwy safoni arfer ar draws Gogledd Cymru, gan godi proffil diogelu oedolion a chynnig llywodraethu cadarn y gallai'r Bwrdd gyflawni ei waith oddi tano.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

8.1 Diogelu

Cafodd uwch swyddogion Gofal Cymdeithasol a Sefydliadau eraill Gogledd Cymru, e.e. yr Heddlu, BCU, eu cynnwys wrth gytuno pa opsiwn a ffafriwyd.

8.2 Monitro Gofal Cartref

Mae Darparwyr Gofal Cartref wedi'u cynnwys wrth ddatblygu'r broses. Mae wedi'i seilio ar waith Rhanbarthol sy'n cynnwys y chwech Awdurdod Lleol a chydweithwyr Iechyd. Mae cyfuno'r Tîm Contractau ac Adolygu wedi bod yn destun ymgynghori gyda holl Dimau Gweithredol y Gwasanaethau Oedolion.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Os yw'r cais am arian rhanbarthol yn llwyddo, dylid cynnwys cost gweithredu'r trefniadau diogelu bwriedig o fewn yr arian sydd ar gael. Os yw'r cais yn aflwyddiannus, dylid adolygu'r achos busnes i asesu a oes rhinwedd i ddatblygu'r prosiect gan ddefnyddio adnoddau presennol. Dylid adolygu'r safbwynt o ran arbedion effeithlonrwydd posibl wrth i'r prosiect ddatblygu. Nodir cynigion i ddatblygu'r swyddogaeth monitro contractau. Gellid creu'r gallu o fewn y swyddogaeth fonitro yn y dyfodol os bydd prosiectau caffael cenedlaethol a rhanbarthol yn datblygu'n llwyddiannus a chynnwys contractau gofal cymdeithasol o fewn eu cylch gorchwyl.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyluniwyd y trefniadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn o ran systemau sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau gofal i liniaru yn erbyn y risgiau nad yw'r gofal a'r cymorth a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr o ansawdd uchel.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Amlinellir y trefniadau ar gyfer rheoli'r modd y caiff oedolion diamddiffyn eu diogelu yn Mewn Dwylo Diogel (2000), dogfen arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a phartneriaid perthnasol i ymchwilio a monitro materion diogelu oedolion.

Mae Erthygl 6.3.4(b) Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi swyddogaeth pwyllgorau archwilio mewn perthynas â chyflawniad Gwasanaethau'r Cyngor, ac mae Erthygl 6.3.4(ch) yn nodi y gall pwyllgorau archwilio wneud argymhellion i'r Cabinet yn deillio o ganlyniadau'r broses archwilio.

**Swyddogion Cyswllt:**

| | |
|---|---|
| Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Arbenigol | Ffôn: 01824 706636 |
| Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr | Ffôn: 01824 706556 |